# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD LLUN, 10 MAWRTH 2025

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elfed Williams
Is-gadeirydd: Cynghorydd Gwynfor Owen

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Owen, Huw Rowlands, Arwyn Herald Roberts, Hefin Underwood a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Andrew Parry (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach)**,** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Anwen Davies, Cyng. Alan Jones Evans a'r Cyng. Angela Russell

Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Angela Russell oedd wedi colli ei gŵr yn ddiweddar

Dymunwyd y gorau a diolchwyd i'r Cyng. Linda Ann Jones, cyn Aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu am ei chefnogaeth i'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn ei chyfnod fel Aelod Plaid Cymru.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 11eg Tachwedd 2024 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 21ain Ionawr 2025, 2il o Ragfyr 2024 a Tachwedd 11eg 2024 fel rhai cywir.

Mewn ymateb i sylw i sicrhau llais yr ymgeisydd mewn gwrandawiadau yn hytrach na llais eu cynrychiolydd, nodwyd bod gan aelodau'r Is-bwyllgor yr hawl i herio'r

cynrychiolydd a gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno / cynnig sylwadau ar y cais.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â mewnbwn gan Gynghorau Cymuned i geisiadau trwydded eiddo, nodwyd bod Cynghorau Cymuned yn rhan o'r broses ymgynghori statudol a'u bod yn cael cyfle i fynegi barn. Ategwyd nad oedd amserlen cyfarfodydd Cynghorau Cymuned bob tro yn cyd-fynd ag amser yr ymgynghoriad, ond bod cyfle iddynt gynnig sylwadau. Petai sylwadau yn cael eu cyflwyno, bydd gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned fynychu'r gwrandawiad i gyflwyno eu sylwadau ar lafar.

Cymerodd y Cyng Elfed Williams y cyfle i ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor ac i'r Swyddogion am eu cefnogaeth tra'n Gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.40 y.b. a daeth i ben am 10.50 y.b.

**CADEIRYDD**